| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Cyngor Sir** |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **9 Gorff 2013** |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | **Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady** |
| **Awdur yr Adroddiad :** | **Richard Weigh, Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Adroddiad Ariannol – Sefyllfa Refeniw Derfynol 2012/13** |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r Cabinet wedi bod yn derbyn adroddiadau monitro rheolaidd trwy gydol y flwyddyn ariannol ynglŷn â pherfformiad gwariant yn erbyn y gyllideb a'r arbedion y cytunwyd arnynt fel rhan o'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig. Derbyniodd y Cabinet yr adroddiad terfynol ar 25 Mehefin 2013. Mae'r adroddiad hwn yn manylu ar y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol er mwyn i'r Cyngor Sir ei ystyried a chymeradwyo'r driniaeth a gynigir ar gyfer cronfeydd a balansau.

Caiff drafft cyntaf y Datganiad Cyfrifon Blynyddol ar gyfer 2012/13 ei gyflwyno i'r archwilwyr allanol ar 28 Mehefin. Yna, bydd y cyfrifon a archwiliwyd yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Medi i'w cymeradwyo'n derfynol.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Rhoi diweddariad ynglŷn â'r sefyllfa refeniw derfynol a'r argymhellion ar gyfer ymdrin â'r balansau. Mae cyfansoddiad y Cyngor yn mynnu bod y Cyngor llawn yn rhoi cymeradwyaeth i sefydlu a defnyddio cronfeydd ariannol wrth gefn, ac i wneud cyfraniadau iddynt.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Cymeradwyo'r sefyllfa refeniw derfynol ar gyfer 2012/13;

Cymeradwyo'r ymdriniaeth o gronfeydd wrth gefn a balansau fel y manylir yn yr adroddiad.

## 4. Manylion am yr adroddiad

Y sefyllfa ariannol gyffredinol ar gyfer 2012/13 yw i'r Cyngor dan wario yn erbyn y gyllideb a gymeradwywyd ac iddo weld cynnydd yn arenillion Treth y Cyngor, ac mae hynny'n cryfhau sefyllfa ariannol y Cyngor. O ganlyniad, mae'n bosibl argymell trosglwyddo cyllid i gronfeydd wrth gefn penodol a fydd o gymorth wrth i'r Cyngor fynd i'r afael â phwysau ariannol trwm y

blynyddoedd nesaf a dechrau sefydlu'r adnoddau arian parod y mae eu hangen i gyflawni'r Cynllun Corfforaethol.

Mae'r ffigurau refeniw terfynol wedi'u nodi yn Atodiad 1. Sefyllfa derfynol cyllideb y gwasanaethau a'r gyllideb gorfforaethol oedd tanwariant o £1.525m (1.3% o'r gyllideb refeniw net).

Roedd sefyllfa alldro cyllideb y gwasanaethau a'r gyllideb gorfforaethol £530k yn uwch na'r hyn a gafodd ei adrodd wrth y Cabinet ym mis Mawrth. Mae'r symudiad mwyaf arwyddocaol o fewn **Gwella Ysgolion a Chynhwysiant** (£223k) ble cyfrannodd ad-daliadau is gogyfer â gwasanaethau gan ddarparwyr allanol a chytundeb ynglŷn â ffioedd lleoli at y symudiad cadarnhaol hwn. Gwellodd sefyllfa derfynol y **Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd** o £76k a hynny o ganlyniad i dalu ffioedd allanol mewn perthynas â'r datblygiad manwerthu ym Mhrestatyn ddiwedd Mawrth, yn hytrach nag yn 2013/14 fel y tybiwyd mewn rhagolygon blaenorol. Derbyniwyd £80k o gyllid grant ychwanegol mewn perthynas â gweinyddu Budd-daliadau ym mis Mawrth. Mae sefyllfa'r **cyllidebau corfforaethol** wedi gwella o £113k ers y rhagolwg a gafodd ei adrodd ym mis Mawrth. Y prif resymau dros y gwelliant yw i'r gwariant ar gostau pensiynau corfforaethol a'r cymhorthdal a roir i'r gwasanaeth Cinio Ysgol Am Ddim fod yn llai nag a oedd wedi ei ragweld.

Mae'r gwasanaethau'n parhau i fod yn rhagweithiol wrth gynllunio ar gyfer arbedion yn y blynyddoedd sydd i ddod, a dechreuwyd gweld effaith ariannol rhai o'r cynigion hynny ar waith tuag at ddiwedd 2012/13. Rhoddodd wasanaethau wybod am ymrwymiadau yn erbyn balansau o £849k ym mis Mawrth. Roedd y rhan fwyaf o'r balansau wedi cael eu rhagweld o ganlyniad i amseru (e.e. oedi wrth roi newidiadau gwasanaeth ar waith neu fod ymrwymiadau gwariant penodol yn cael eu gohirio tan 2013/14). Mae balansau gwasanaeth a ymrwymwyd rŵan yn £1.139m ac mae manylion pellach isod.

Roedd y gwariant ar ysgolion £1.069m yn is na'r gyllideb a ddirprwywyd. Mae hyn yn adlewyrchu symudiad o'r sefyllfa yr adroddwyd yn ei chylch ym mis Mawrth o £774k. Bu gwelliant ar gyfer ysgolion arbennig o £490k sy'n ffurfio'r rhan fwyaf o gyfanswm y symudiad. Mae'r symudiad mewn perthynas ag ysgolion arbennig yn ymwneud â'r ffactorau canlynol:

- Cadarnhau'n derfynol faint a godir ar awdurdodau lleol eraill i adennill costau gogyfer â phlant o siroedd eraill.
- Oedi yn y buddsoddiad mewn TG a oedd wedi ei ragweld oherwydd y penderfyniad i brynu offer yn llwyr oddi wrth ddarparwr newydd sy'n golygu y bydd y gwariant yn awr yn digwydd yn y flwyddyn ariannol newydd.
- Oedi yn y datblygiad arfaethedig ar lain o dir yn safle'r Gwynfryn a fydd yn adnodd hyfforddiant galwedigaethol.

Mae Ysgolion Arbennig wedi cynllunio i gynyddu eu balansau er mwyn gallu ymdopi'n well gydag amrywiadau mewn lefelau incwm bob blwyddyn yn

ymwneud ag adennill costau i'r awdurdod lleol a'r angen i fuddsoddi'n flynyddol mewn adnoddau ysgol i ddarparu ar gyfer y newid sydd o flwyddyn i flwyddyn yn anghenion y disgyblion. Mae balansau ysgolion yn awr yn £2.870m sy'n gyfystyr â chyfartaledd o £190 y disgybl a 4.25% o'r gyllideb ysgolion net. Manylir ar falansau ysgolion yn Atodiad 4.

Cyllidebodd y cyngor ar gyfer gwneud cyfraniad o £300k i'r balansau sydd, yn gyson ag adroddiadau blaenorol, yn dybiaeth o fewn y sefyllfa alldro derfynol. Cyllidebodd y cyngor hefyd i gyfrannu tuag at ariannu'r Cynllun Corfforaethol. Mae'r Cynllun angen tua £25m o arian parod a £52m o arian wedi'i fenthyg i wireddu dyheadau'r Cyngor. Rhan o'r strategaeth hon oedd dynodi adnoddau refeniw cyllidol i gynhyrchu arian parod i ariannu gwariant cyfalaf a bydd yr arfer hwnnw'n parhau. Yng nghyllideb 2012/13, roedd tybiaeth y byddai £2.073m yn cael ei gynhyrchu trwy fod arian blaenoriaeth wedi'i ddyrannu i wasanaethau a thrwy fod darpariaethau wedi'u cyllidebu o fewn cyllidebau corfforaethol.

Mae gwybodaeth bellach yn ymwneud ag alldro terfynol y gwasanaethau fel a ganlyn:

**Cynllunio Busnes a Pherfformiad** – y sefyllfa derfynol yw tanwariant o £60k. Digwyddodd y tanwariant oherwydd costau is gogyfer â TGCh (meddalwedd mapio) ac oherwydd bod ad-daliadau'n uwch na'r hyn a ragwelwyd. Fel y rhoddwyd gwybod i'r Cabinet eisoes, cynigir bod y tanwariant yn cael ei ddefnyddio i ariannu prosiect System Reoli Dogfennau Electronig a Chofnodion a chyfrannu tuag at ariannu swydd yn ymwneud â cheisiadau Rhyddid Gwybodaeth.

Cyfrannodd arian grant a ddyfarnwyd ym mis Mai at danwariant yr **Adran Ariannol ac Asedau** o £16k. Mae cynnig i ddefnyddio'r balans i ariannu costau yn 13/14 sy'n deillio o'r cynigion i greu Gwasanaeth Caffael isranbarthol.

Mae sefyllfa'r adran **Priffyrdd a'r Amgylchedd** (£278k yn is) wedi gwella o £15k ers y rhagolwg a wnaed ym mis Mawrth. Mae'r tanwariant wedi ei wneud o nifer o amrywiadau gan gynnwys buddiannau contractau ailgylchu (£69k), y defnydd o falansau a ddygwyd ymlaen o 2011/12 (£50k) a £36k yn ymwneud â chytundeb ariannu gyda Llywodraeth Cymru a ddefnyddir yn 2013/14 i fuddsoddi mewn darpariaeth trafnidiaeth leol. Mae tua £123k o'r tanwariant yn ymwneud ag oedi wrth gaffael offer a chynigir bod hwn yn cael ei ddwyn yn ei flaen. At hynny, mae'r gwasanaeth yn cynnig cario £50k yn ei flaen i hwyluso trosglwyddo cyfleusterau arfordirol a chario £40k yn ei flaen i fuddsoddi mewn peiriannau newydd mewn meysydd parcio.

Cyfrannodd yr incwm ychwanegol a gynhyrchwyd â dirwyon (baw cŵn) tuag at y tanwariant bychan (£6.5k) yn yr adran **Gynllunio a Rheoleiddio** ac mae cynnig i'w ddefnyddio i gyllido costau ailstrwythuro fel rhan o gyflawni arbedion ar gyfer 2013/14.

Dangosir bod y **Gwasanaeth Oedolion a Busnes** wedi cyflawni eu cyllideb. Fodd bynnag, fel rhan o strategaeth hirdymor i ymdrin â phwysau costau yn ystod y flwyddyn, caiff unrhyw falans ei ariannu o Gronfa Wrth Gefn Cefnogi Pobl a'r cyfraniad a wnaed yn 2012/13 oedd £40k.

Sefyllfa derfynol y **Gwasanaeth Plant a Theuluoedd** yw £148k sydd £10k yn uwch na'r hyn a adroddwyd ym mis Mawrth. Fel yr adroddwyd wrth y Cabinet yn flaenorol, roedd y rhan fwyaf o hyn yn ymwneud â ffioedd mabwysiadau y tybiwyd eu bod ar gyfer 2012/13 ond a delir yn 2013/14 a datrysiad mwy ffafriol na'r disgwyl i anghydfod ynglŷn â threfniant ariannu gofal. Yn ychwanegol at gynnig dwyn balansau yn eu blaenau i ariannu'r ffioedd maethu, mae'r Gwasanaeth yn cynnig dwyn £20k yn ei flaen i ariannu ymgyrch recriwtio rhieni maeth.

Digwyddodd y tanwariant o £9k o fewn yr adran **Tai a Datblygu Cymunedol** oherwydd i adolygiad o ariannu trwy grantiau allanol ar ddiwedd y flwyddyn amlygu costau ychwanegol y gellir eu hawlio. Mae hyn hefyd i gyfrif am y symudiad rhwng y rhagolygon ym mis Mawrth a'r sefyllfa derfynol.

**Yr Adran Cyfathrebu, Marchnata a Hamdden** – y sefyllfa alldro derfynol yw tanwariant o £37.5k (cafodd £25k ei adrodd ddiwedd mis Mawrth). Mae £25k o hyn yn berthnasol i danwariant a ddygwyd ymlaen o 11/12 ar y gyllideb Cyfathrebu a Marchnata, y bwriedir ei ddefnyddio fel rhan o ailstrwythuro'r gwasanaeth hwnnw. Yn anffodus, bu oedi wrth adolygu ac ni fydd hyn yn cael ei gwblhau tan ddechrau 2013/14. Mae'r gwelliant yn y sefyllfa gyffredinol oherwydd bod gwariant o gyllideb yr Adeiladau Cymunedol (Neuaddau Tref) £7k yn llai nag a oedd wedi ei ragweld ac roedd alldro terfynol Theatr Pafiliwn y Rhyl £5k yn is na'r gyllideb. Roedd newid perfformiad masnachu'r cyfleuster hwnnw o £150k (20% o'r gyllideb) mewn blwyddyn a sicrhau bod gweithrediad y lle yn costio llai na'r gyllideb' am y tro cyntaf mewn nifer o flynyddoedd yn llwyddiant sylweddol. Cynigir fod tanwariant y gwasanaeth o £37.5k yn cael ei glustnodi ar gyfer ailstrwythuro'r gwasanaeth Marchnata Cyrchfan a Chyfathrebu sydd yn yr arfaeth ar hyn o bryd.

Mae cyllideb yr adran **TGCh/Trawsnewid Busnes** £108k yn is (£95k a adroddwyd ym mis Mawrth). Y prif reswm am y tanwariant yw costau llai na'r disgwyl wrth drwyddedu meddalwedd. Cynnig y gwasanaeth yw defnyddio'r balans yn 2013/14 i gyfrannu tuag at Gam 2 cyflawni'r strategaeth TGCh.

Sefyllfa derfynol yr adran **Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg** yw tanwariant o £245k (£232k a adroddwyd ym mis Mawrth). Fel sydd wedi ei adrodd yn flaenorol, digwyddodd y tanwariant o ganlyniad i'r adolygiadau gwasanaeth sy'n mynd rhagddynt gan arwain at arbediad o ganlyniad i lefydd gweigion dros dro a gohirio costau ailstrwythuro. Cynnig y gwasanaeth yw defnyddio'r balans i ariannu'r buddsoddiad mewn ailstrwythuro ysgolion ac adrannau sy'n mynd rhagddo a chostau moderneiddio gwasanaethau yn 2013/14.

Sefyllfa derfynol yr adran **Gwella Ysgolion** yw tanwariant o £349k. Mae tua £230k yn ymwneud ag adennill costau rhwng awdurdodau lleol gogyfer â phlant o'r tu allan i'r sir, sydd yn gyllideb a all godi a gostwng yn flynyddol yn

ddibynnol ar niferoedd disgyblion a chymhlethdod yr angen. Mae arbedion llefydd gweigion a thanwariant yn ymwneud â hawliadau is nag a oedd wedi eu rhagweld gan Ddarparwyr Blynyddoedd Cynnar i gyfrif am y rhan fwyaf o'r sefyllfa sy'n weddill. Fel y soniwyd yn flaenorol, cynnig y gwasanaeth yw i £126k gael ei ddefnyddio i gyfrannu tuag at gyllido amddiffyn yr ysgolion sydd wedi cael eu heffeithio gan y newidiadau diweddar i'r fformiwla gyllido. Mae cynnig hefyd i ddefnyddio £25k i ariannu swydd bresennol o fis Awst hyd fis Mai o ganlyniad i leihad dros dro mewn arian grant.

Effeithir ar sefyllfa arenillion **Treth y Cyngor** gan nifer yr anheddau yn y Sir, ynghyd â lefel uchel iawn o gasglu trethi (dros 98% sydd, mae'n debyg, yr ail uchaf yng Nghymru). Gwnaed tybiaethau pan bennwyd y cyllidebau i roi cyfrif am ostyngiad tebygol yng nghyfradd casglu trethi fel canlyniad i'r darlun economaidd cyffredinol anodd ond mae'r cyngor wedi llwyddo i gynnal cyfradd gasglu uchel, sydd yn gryn gamp.

Fel yr adroddwyd i'r Cabinet trwy gydol y flwyddyn, roedd disgwyl i lefel arenillion terfynol Treth y Cyngor fod yn fwy na'r rhagolygon gwreiddiol a ddefnyddiwyd pan osodwyd y gyllideb. Yr arenillion terfynol yw £315k (0.8%) sydd yn uwch na'r amcangyfrif gwreiddiol ac felly mae gan y Cyngor fuddiant unigryw. Y dybiaeth trwy gydol y flwyddyn a'r cynnig bellach yw defnyddio hyn i gyfrannu tuag at ariannu'r Cynllun Corfforaethol.

O ystyried y sefyllfa gyffredinol o fewn y gwasanaethau, cynigir bellach fod yr adrannau yn dwyn unrhyw danwariant net yn ei flaen i gynorthwyo wrth gyflawni strategaeth cyllideb 2013/14 ac i gwrdd ag unrhyw ymrwymiadau sy'n bodoli. Bydd angen i wasanaethau amlinellu'n fanylach sut y bydd y balansau a ddygwyd ymlaen wedi cael eu defnyddio yn yr Adroddiad Ariannol i'r Cabinet ym mis Hydref.

Mae'r sefyllfa derfynol yn golygu fod gan y cyngor £651k o gyllid arian parod ar gael iddo. Mae hyn yn llwyddiant sylweddol ac mae'n rhaid i'r cyngor sicrhau y defnyddir yr arian yn y ffordd fwyaf effeithiol posibl. Cynigir bod y swm hwn yn cael ei ddefnyddio i gyfrannu tuag at y cronfeydd arian parod wrth gefn sydd eu hangen i ariannu'r Cynllun Corfforaethol.

Mae penderfyniad y Cyngor i weithredu cynllun uchelgeisiol o fuddsoddiad cyfalaf trwy'r Cynllun Corfforaethol yn golygu bod angen swm sylweddol o adnoddau ariannol fel rhan o'r strategaeth ariannu cyffredinol. Mae angen tua £25m o arian ac mae Cronfa'r Cynllun Corfforaethol wedi'i sefydlu ar gyfer y pwrpas hwn.

Ym mis Mawrth, cwblhaodd y Prif Swyddog Cyllid adolygiad o'r arian presennol i ganfod a oedd y lefelau balansau a chronfeydd presennol yn rhesymol ac a oedd yn bosibl symud ychydig o'r cronfeydd wrth gefn i Gronfa'r Cynllun Corfforaethol. Rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol am ganlyniadau'r adolygiad hwn ym mis Mai a daethpwyd i'r casgliad y byddai'n briodol i drosglwyddo £6.274m o'r cronfeydd presennol i'r Gronfa Cynllun Corfforaethol.

Mae manylion y cronfeydd a glustnodwyd wedi'u hamgáu yn Atodiad 2 ac mae crynodeb o'r trosglwyddiadau a gynigiwyd fel y rhoddwyd gwybod i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi'u cynnwys yn Atodiad 3.

Gwnaed darpariaeth ar gyfer gwneud nifer o gyfraniadau eraill i mewn ac allan o'r Cronfeydd Wrth Gefn a'r Darpariaethau. Ceir manylion am y rhain yn Atodiad 2 a bydd angen iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn. Mae'r symudiadau sylweddol i'r cronfeydd wrth gefn nad ydynt eisoes wedi eu hamlygu yn cynnwys:

- Mae £562k wedi cael ei glustnodi i ariannu amddiffyn ysgolion a effeithir gan y newidiadau diweddar i'r fformiwla gyllido
- Mae £185k wedi cael ei ychwanegu at y Gronfa Yswiriant Wrth Gefn i gyfrif am y rhwymedigaethau sy'n parhau mewn perthynas ag MMI (cyn yswirwyr yr awdurdodau a oedd yn rhagflaenu Sir Ddinbych) a hawliadau posibl eraill.
- Mae cyllid wedi symud o'r Gronfa Statws Sengl Wrth Gefn i ddarpariaeth i ariannu hawliadau cyflog cyfartal

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau  Corfforaethol?

Mae rheolaeth effeithiol o refeniw a chyllidebau cyfalaf y cyngor a darparu strategaeth gyllideb y cytunwyd arni'n sail i weithgareddau ym mhob maes, gan gynnwys blaenoriaethau corfforaethol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Cyllideb refeniw net y cyngor ar gyfer 2012/13 oedd £177m. Y sefyllfa derfynol ac eithrio ysgolion oedd tanwariant o £1.5m (1.3%). Yn gynwysedig o fewn y sefyllfa hon mae effaith yr ariannu grant a gadarnhawyd yn hwyr yn y flwyddyn ariannol a'r cyfraniad sydd wedi ei gyllidebu i gronfeydd wrth gefn a balansau. Cynigir bod y gwasanaethau hynny a lwyddodd i dan wario yn dwyn y balans net yn ei flaen i 2013/14. Bydd sefyllfa pob gwasanaeth a defnydd arfaethedig y balansau yn cael eu hadolygu yn 2013/14.

Bydd y sefyllfa alldro derfynol yn cyfrannu gwybodaeth at drafodaethau ynglŷn ag arbedion cyllideb i'r dyfodol.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r asesiad a gynhaliwyd ynglŷn ag effaith y penderfyniad ar gydraddoldeb?

Gwasanaethau unigol sy'n gyfrifol am gynnal asesiadau effaith ar eu harbedion arfaethedig sydd wedi eu cynnwys yn y gyllideb. Cyflwynwyd crynodeb o'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb i'r Cyngor yn Chwefror 2012 fel rhan o'r broses cymeradwyo cyllideb.

## 8. Pa ymgynghori a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Cynhaliwyd ymarferion herio gwasanaeth gyda phob pennaeth gwasanaeth ac roedd cynrychiolwyr o’r pwyllgor archwilio a’r Cabinet yn rhan o’r ymarferion hyn. Cynhaliwyd gweithdai Cynllun Corfforaethol a’r Gyllideb gydag aelodau ym Medi, Tachwedd a Rhagfyr. Cymeradwyodd y cyngor y cynllun cyfalaf wedi i’r Grŵp Buddsoddi Strategol graffu arno ac wedi i’r cabinet ei argymell.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Mae’r cyngor wedi cyflawni arbedion i’r gyllideb refeniw o £3.4m yn 2012/13 sydd yn gryn lwyddiant. Mae’r gwasanaethau’n parhau i fod yn ddoeth ac yn effeithiol wrth ddynodi arbedion wrth symud ymlaen, ac mae rhai o’r arbedion hynny wedi dechrau dwyn ffrwyth yn 2012/13. Mae hyn, yn ogystal â chael arian grant yn hwyr yn y flwyddyn, a gwell canlyniad treth y cyngor wedi darparu perfformiad cyllideb cryf unwaith eto.

Mae’r sefyllfa derfynol yn golygu y gellir gwneud y cyfraniadau y mae eu hangen yn 2012/13 i ariannu’r Cynllun Corfforaethol. Ni ellir cyflawni’r Cynllun heblaw bod yr adnoddau arian parod angenrheidiol yn cael eu clustnodi er mwyn buddsoddi mewn ysgolion, mewn gofal cymunedol ac mewn blaenoriaethau eraill.

Caiff yr amddiffyniad sy’n cael ei gynnig i’r ysgolion hynny sy’n cael eu heffeithio gan y newidiadau diweddar i’r fformiwla gyllido ei adolygu yng nghyd-destun y cyfraniadau a wneir i falansau ysgolion yn niwedd 2012/13.

## 10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i’w lleihau?

Dyma’r cyfnod ariannol mwyaf heriol y mae'r cyngor wedi'i wynebu a bydd methu â chyflawni’r strategaeth gyllidol y cytunwyd arni yn rhoi pwysau ychwanegol ar wasanaethau yn ystod y flwyddyn ariannol gyfredol a thros y blynyddoedd sydd i ddod. Bydd monitro a rheoli’r gyllideb yn effeithiol yn helpu i sicrhau y cyflawnir y strategaeth ariannol. Mae’r Cyngor wedi ymrwymo i gyflawni Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol sy’n gofyn am adnoddau sylweddol. Mae’n hanfodol fod y strategaeth y cytunwyd arni i adeiladu cronfeydd wrth gefn penodol i gyfrannu at ariannu’r Cynllun yn cael ei chynnal.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

. Gofynnir i awdurdodau lleol o dan Adran 151 Deddf Llywodraeth Leol 1972 wneud trefniadau i weinyddu eu materion ariannol yn gywir.